



Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



#Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

26/01/2022-21/03/2022	DYDDIAD	CYFRWNG
ANG—Asesur Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6)	10/2/2022	Cymraeg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	16/02/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Gwybodaeth glir ac arferion ystyrlon	17/02/2022	Saesneg
'Biofilia' - 'Gwell allan nag i mewn', Dr Coral Harper	09/03/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Trosglwyddo: Sut i sicrhau parhad a chynnydd	10/03/2022	Saesneg
Rhaglen ar gyfer Cynorthwy-wyr Addysgu wrth eu Gwaith (Sesiwn 4, Cyfrwng Saesneg)	15/03/2022	Saesneg
Rhaglen ar gyfer Cynorthwy-wyr Addysgu wrth eu Gwaith (Sesiwn 4, Cyfrwng Cymraeg)	16/03/2022	Cymraeg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus am Drawma i Ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar	16/03/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Geirfa: ehangder a dyfnder	17/03/2022	Saesneg

Recordiadau a Deunyddiau Hyfforddiant Helen Worrall

Mae recordiadau a deunyddiau hyfforddiant Helen Worrall megis Chwarae sy'n Seiliedig ar Berthynas, Y Rhestr Wirio Arsylwi a Rôl yr Oedolyn Allweddol bellach ar gael ar [G6](#). **Rhaid cofrestru er mwyn cael mynediad i'r recordiadau.**



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

GWYBODAETH AC ARWEINIAD LLYWODRAETH CYMRU

"Tuag at Cwricwlwm i Gymru Medi 2022: beth sydd angen ei wybod a'i wneud" - *SESIWN I BENAETHIAID* 

📅 17/02/2022 ⌚ 16:00-17:30 🖥️ Digwyddiad Ar-lein 🔗 <https://www.liveeventstream.online/headteacher-conference>

Sesiwn holi ac ateb gyda'r Gweinidog.
Rhagor o wybodaeth [yma](https://www.yma.gov.uk).

Trafod Addysgeg

CYNLLUNIO SESIYNAU AR GYFER GWANWYN / HAF 2022

Trwy gydweithio ag Ysgolion, y Consortia Rhanbarthol, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac Addysg Uwch, datblygwyd y calendr [hwn](https://www.hwn.gov.uk). Cynhelir pob sesiwn am **15:45** oni nodir yn wahanol.

RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Mae'r sesiynau hyfforddi rhanbarthol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn fyw ar G6. Noder, yn benodol, y bydd sesiwn 6 *Asesu Ffurfiannol* yn **cael ei ail-redeg** (cyfrwng Cymraeg) ar 10/02/2022 rhwng 15:30 a 17:15. Am ragor o fanylion a dyddiadau, gweler uchod o dan Cynnig Proffesiynol GwE, [yma](https://www.yma.gov.uk) ac ar G6.

Recordiadau a fideos hyfforddiant cenedlaethol a rhanbarthol 2021-22

ANG Sesiwn 1 (Cymraeg) NQT Session 1 (English)	ANG Sesiwn 3 (Cymraeg) NQT Session 3 (English)
ANG Sesiwn 4 (Cymraeg) NQT Session 4 (English)	ANG Sesiwn 5 (Cymraeg) NQT Session 5 (English)
NQT Session 6 (English) 	
Sesiwn 1 Mentor Sefydlu (Cymraeg) Induction Mentor Session 1 (English)	
Hyfforddiant Gwirwyr Allanol (Cymraeg) External Verifier Training (English)	

CYFLEOEDD GYDA GwE

Recriwtio Aseswyr ar gyfer Statws CALU [Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch]

Mae GwE yn chwilio am ymarferwyr i ymuno â'r tîm sydd ynghlwm wrth y Rhaglen Asesu Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU).

Fel aseswr byddwch yn gyfrifol am asesu ymgeiswyr sydd wedi cwblhau'r Rhaglen Darpar CALU ac sydd yn mynd ymlaen i gael eu hasesu ar gyfer statws CALU. Am fwy o wybodaeth a manylion ymgeisio, cliciwch [yma](https://www.yma.gov.uk).

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais: 1 Mawrth 2022

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Podlediad Cadernid Digidol GwE - *PENNOD NEWYDD*

CHWARAE GEMAU AR-LEIN

Mae gemau ar-lein yn fwy poblogaidd nag erioed. Yn ôl [Ofcom](#) roedd tua saith o bob deg o blant 5-15 oed yn chwarae gemau ar-lein yn 2020. Mae llawer o arbenigwyr yn cytuno y gall chwarae gemau ar-lein gynnig manteision corfforol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc. Ond, fel gyda sawl agwedd ar eu bywydau digidol, fe all fod yna anfanteision hefyd. Ar gael drwy eich gwasanaethau gwranddo arferol neu drwy glicio [yma](#).




Gweminar 2: Rhwydwaith STEM Gogledd

FFRAMWAITH AR GYFER STRWYTHURO DATBLYGIAD STEM MEWN YSGOLION Cyfoethogi'r Cwricwlwm STEM

10/02/2022 16:00-17:00 Digwyddiad Ar-lein

Yr ail mewn rhaglen o 5 sesiwn ar gyfer athrawon STEM a Chynllunwyr Cwricwlwm sydd â diddordeb mewn datblygu STEM yn eu hysgolion neu golegau. Bydd Technocamps ac Engineering Education Scheme Wales (EESW) yn cyflwyno syniadau yn y sesiwn hwn.

Dilynwch y ddolen [hon](#) i gofrestru.



Gweminarau Headsprout

PROSIECT CADW DISGYBLION I DDARLLEN

Mae'r prosiect yn rhoi cymorth *am ddim* i ysgolion cynradd GwE ddefnyddio *Rhaglen Ddarllen ar-lein Headsprout*.

Mae tîm ymchwil CIERI Prifysgol Bangor wedi creu llu o fideos hyfforddiant a chanllawiau i helpu staff ysgolion a rhieni i ddefnyddio Headsprout.

GWEMINAR 1: YDI HEADSPROUT YN NEWYDD I CHI?

02/03/2022 09:30-10:15 <https://tinyurl.com/2p8e59fc>

02/03/2022 15:45-16:30 <https://tinyurl.com/2p9azb3z>

GWEMINAR 2: EISIOES YN DEFNYDDIO HEADSPROUT?

02/03/2022 11:15-12:00 <https://tinyurl.com/47u79xnz>

03/03/2022 15:45-16:30 <https://tinyurl.com/4r493b9r>

Rhagor o fanylion i'w cael [yma](#).



At Sylw: Cydlynwyr THS / BAC



Gweler fanylion isod am gyfarfodydd i Gydlynwyr THS / BAC GwE. Bydd Arwel Jones a Sian Coathup (Swyddogion Cefnogi Rhanbarthol y THS, CBAC) yn eich tywys trwy ddiweddariadau a bydd cyfle i chi drafod unrhyw ymholiadau pellach.

Gweler y manylion a dolen i ymuno â'r sesiynau isod. Rhennir yr un wybodaeth gan Arwel a Sian felly cewch ymuno â pha sesiwn bynnag sydd fwyaf cyfleus – sylwer y bydd rhai sesiynau yn Gymraeg yn unig.

DIM ANGEN COFRESTRU – DIM OND CLICIO AR Y DDOLEN/LINC TEAMS PERTHNASOL

Dydd Llun 28.2.22 Cyfrwng Saesneg

9:00 – 10:00 Sian Coathup, CBAC

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Dydd Llun 28.2.22 Cyfrwng Cymraeg

15:30 – 16:30 Arwel Jones, CBAC

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Dydd Iau 3.3.22 Cyfrwng Cymraeg

10:00 – 11:00 Arwel Jones, CBAC

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Dydd Iau 3.3.22 Cyfrwng Saesneg

15:30 – 16:30 Sian Coathup, CBAC

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Cysylltwch â gwennojarvis@gwegogledd.cymru os am fwy o wybodaeth.

Dyfodol Byd-eang GwE: leithoedd Rhyngwladol

Am ragor o wybodaeth neu am gymorth gyda'r eitemau isod, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Canolfan Cefnogaeth GwE: [leithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/>

NEWYDDLEN ITM DYFODOL BYD-EANG:


UWCHRADD: [Cymraeg](#) | [Saesneg](#) CYNRADD: [Cymraeg](#) | [Saesneg](#)

SECTOR UWCHRADD:

- **Dysgu Proffesiynol Dyfodol Byd-eang GwE : paratoi at CiG**
[Rhagor o fanylion ar gael yma.](#)
- **Geiriadur Ffrangeg-Cymraeg / Cymraeg-Ffrangeg ar-lein, agored**
<https://www.geiriadurffrangeg.cymru/>
- **Cystadleuaeth ac Adnoddau i Ysgolion yng Nghymru: Gwobr Anthea Bell i Gyfieithwyr Ifanc**
[Rhagor o wybodaeth a manylion cofrestru ar gael yma.](#)



NEWYDDION A GWYBODAETH CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL



Rhaglen Dysgu Proffesiynol Iechyd Meddwl: MIND

Gohiriwyd dyddiadau'r Rhaglen Bartneriaeth Lles ac Iechyd Meddwl tymor diwethaf.

Mae dyddiadau newydd ar gael isod. Cliciwch ar y [ddolen hon](#) am fanylion ac i archebu.

Rhaglen Bartneriaeth Lles ac Iechyd Meddwl Mind Cymru * DYDDIADAU NEWYDD *

Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

DYDDIAD	BORE	PRYNHAWN	IAITH
26/01/2022	✓		Cymraeg
03/02/2022	✓		Cymraeg
09/02/2022	✓		Saesneg
10/02/2022	✓		Saesneg



CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL
REGIONAL SCHOOL IMPROVEMENT CONSORTIA

Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gwaith a Chefnogi Staff

DYDDIAD	BORE	PRYNHAWN	IAITH
08/02/2022		✓	Cymraeg
09/03/2022	✓		Cymraeg
01/03/2022	✓		Saesneg
02/03/2022	✓		Saesneg
09/03/2022	✓		Saesneg
15/03/2022	✓		Cymraeg

GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Addysgwyr Creadigol Adobe

Hoffech chi fod yn Addysgwr Creadigol Adobe? Dim ond 90 munud gymer hyn! Fel rhan o'r rhaglen cewch nifer o syniadau ar sut i drawsnewid yr addysgu drwy ddefnyddio technoleg yn greadigol. Bydd pawb sy'n mynychu un o'r sesiynau lefel 1 yn gallu cyflwyno cais i ddod yn Addysgwr Creadigol Adobe. Dim ond 30 lle sydd ym mhob sesiwn felly hawliwch eich lle yn fuan. [Cliciwch yma](#) am fwy o fanylion.



Cystadleuaeth Gohebydd Ifanc y BBC 2022

Mae Cystadleuaeth Gohebydd Ifanc y BBC yn ôl ac yn gyfle i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed adrodd am stori neu fater sy'n bwysig i'w bywyd neu'r byd o'u cwmpas.

Mae'r holl fanylion a'r ffurflen i uwchlwytho syniadau am stori ar-lein: www.bbc.co.uk/cystadleuaethgohebyddifanc
Y dyddiad cau yw dydd Sul 27 Mawrth 2022.

Mae ceisiadau am weithdai adrodd am straeon a rhagor o fanylion am sgiliau cyfryngau a gweithgareddau allgymorth Gohebydd Ifanc y BBC drwy gydol y flwyddyn ar gael drwy gysylltu â youngreporter@bbc.co.uk neu gofrestru [yma](#).

Gwerthuso Cynllun Iechyd Da

Mae'r Cyngor Llyfrau yn cynnal gwerthusiad o gynllun Iechyd Da, sef pecyn arbennig o lyfrau i bob ysgol gynradd i gefnogi iechyd a lles plant.

Nod y pecyn a dderbyniwyd gan eich ysgol yw eich cefnogi wrth drafod iechyd a lles fel rhan o'r cwricwlwm.

Mae'r arolwg byr (10 munud) hwn yn gofyn eich barn ar ansawdd y llyfrau a sut yr ydych chi wedi eu defnyddio. Dyddiad cau: **18 Chwefror 2022**

MA Addysg [Cymru]

PRIFYSGOL GLYNDŴR, WRECSAM

Mar Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn falch o fod yn rhan o'r rhaglen Feistr mewn Addysg (Cymru) newydd, ac mae gennym 50 o leoedd wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y rhaglen astudio gyffrous hon. Am ragor o fanylion am y cyfleoedd a ariennir, [cliciwch yma](#) neu cysylltwch â Kelly Smith, Arweinydd y Rhaglen [K.Smith2@glyndwr.ac.uk].



Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig 2022

A yw eich ysgol wedi cynnal prosiect sy'n ymwneud â threftadaeth Gymreig eich disgyblion eleni? Mae'r Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn cynnig gwobrau hael am brosiectau sydd ar fformat digidol. Gallwch ddarllen am enillwyr 2021 a dysgu mwy am gystadleuaeth 2022 [yma](#). Bydd angen cofrestru cyn hanner tymor a chyflwyno'r prosiect erbyn **18 Mawrth 2022**.

Mae cystadleuaeth ar wahân, Gwobr EUSTORY, i ddisgyblion ôl-16. Bydd angen cofrestru cyn diwedd Chwefror a chyflwyno'r prosiect erbyn **21 Ebrill 2022**.



Cyfleoedd newydd yn agor fel rhan o waith Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer cronfeydd **Ewch i Weld** ac **Ewch i Greu**, fel rhan o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Gall ysgolion wneud cais am grantiau bach o hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau unigol â digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol. Gall ysgolion hefyd wneud cais am grant o £1,000 i weithio gydag ymarferydd creadigol i'w cefnogi i ddarparu dulliau creadigol o ymgysylltu â dysgwyr.

[Cliciwch yma am yr holl wybodaeth ynglŷn â'r ddwy gronfa.](#)



Cyrsiau Cyfnod Sylfaen Addysg Oedolion Cymru

Cyrsiau ar-lein yn rhad ac am ddim ar gael i rieni gan Addysg Oedolion Cymru. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth.

Cwrs Hunan-astudio Dysgu Cymraeg Lefel Mynediad i Athrawon

CYFLE I DDATGAN DIDDORDEB

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig Cwrs Hunan-astudio Lefel Mynediad i Athrawon - ar gael ar-lein (120 awr) i 200 o athrawon cyfrwng Saesneg cynradd ac uwchradd ar draws Cymru.

Am fwy o wybodaeth ac i ddatgan diddordeb cliciwch [yma](#). **Bydd angen defnyddio'r cyfrinair "ha2022".**

Hyfforddiant Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs)

Hyfforddiant am ddim gan NDNA Cymru. Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#).

Cynhadledd 'Gweithio Gyda Phlant a Phobl Ifanc'

Cynhelir y gynhadledd ar-lein hon gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Am fwy o fanylion cliciwch [yma](#).